

# Astudiaeth Achos: Prisiwr - Martin

## Beth ydych chi'n ei wneud?

Fel pob prisiwr arall, byddaf yn pennu gwerth eiddo at sawl diben, gan gynnwys at ddiben yswiriant, setliadau cyfreithiol, treth ac ati. Yn bersonol, rwy'n canolbwyntio ar gelfyddyd gain ac addurnol, hen bethau, eitemau y mae pobl yn eu casglu ac eitemau sy'n gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau cofiadwy. Mae'r pethau hynny'n cynnwys paentiadau, carpedi, grisial, cerfluniau a phorslen.

Rwy'n berchen ar fy nghwmni fy hun, a fi sy'n rhedeg y cwmni. Rwyf hefyd yn ysgrifennu llawlyfrau a chanllawiau proffesiynol eraill i bobl yn y diwydiant. Rwy'n hyfforddi priswyr hefyd.



## Beth yw'ch cefndir?

Astudiais i Gelfyddyd Gain ac enillais i radd meistr a doethuriaeth yn fy ngwlad enedigol, Rwmania, cyn symud i Brydain.

Dechreuodd fy niddordeb yn y maes hwn ar ôl i mi sylweddoli bod llawer iawn o alw am wasanaeth prisio. Bues i'n addysgu hanes celf am gyfnod, ond roedd pobl yn dod ataf yn gyson i ymgynghori ynghylch gwerth eu gwaith celf. Astudiais y pwnc a des i'n brisiwr.

Rwyf wedi bod yn gweithio fel prisiwr ers dros 30 mlynedd erbyn hyn, ym maes celfyddyd gain ac addurnol yn bennaf. Rwy'n aml yn gweithio fel ymgynghorydd i bobl yn y diwydiant yswiriant ac i gyfreithwyr a rheolwyr casgliadau cyhoeddus a phreifat. Rwyf hefyd yn 'dyst arbenigol' ar gyfer y llysoedd.

## Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Mae'n rhaid i briswyr ymroi i'r proffesiwn. Mae'n rhaid iddynt fod yn onest ac yn wrthrychol, yn gydwytbodol ac yn drwyadl. Mae'n rhaid iddynt wneud eu gorau i gwblhau pob tasg gan ddangos cywirdeb cymeriad.

## Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Gallwn ni ddysgu pobl eraill sut i brisio, neu gallwn ni roi darlithoedd i grwpiau megis cymdeithasau treftadaeth, orielau cyhoeddus neu glybiau rotari. Un enghraifft o bwnc posibl ar gyfer darlith fyddai 'pryd i fuddsoddi mewn celf' neu 'sut mae celf yn wahanol i fuddsoddiadau eraill'.

Gyda rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol, gallai priswyr symud ymlaen i fod yn guraduron.

Gall priswyr symud ymlaen hefyd i brynu a gwerthu'r nwyddau y maent yn delio â nhw, oherwydd eu bod yn arbenigwyr ar bennu gwerth y nwyddau hynny.

## Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Bydd newidiadau'n parhau i ddigwydd ym maes technoleg yn y dyfodol (e.e. dyddio carbon i weld pryd y cafodd darn o gelf ei greu). Bydd hynny'n parhau i effeithio ar waith priswyr.

## Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Mae llawer o elfennau heriol yn perthyn i'r swydd hon. Er enghraifft, mae'n rhaid i briswyr wneud llawer o waith 'ditectif' gofalus, ac mae hynny'n gallu bod yn eithaf heriol.

Yn ogystal, mae'n rhaid i briswyr fod yn gywir yn gyson wrth weithio - pe baent yn rhoi prisiadau anghywir, gallent gollu eu henw da neu gael eu herlyn hyd yn oed.

## Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Mae cyfleoedd ar gael ym mhob rhan o'r DU ar hyn o bryd. Mae'n bwysig cael cymwysterau da.

## Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Byddwch yn cael profiadau newydd bron bob awr o bob dydd. Er enghraifft, gallwn i fod yn edrych ar hen wardrob Ffrengig o'r 19eg ganrif ar gyfer un cleient at ddibenion yswiriant. A'r un prynhawn, gallwn i fod yn edrych ar ddarn o gelf fodern gan Salvador Dali ar gyfer cleient arall at ddibenion treth.

Yn y ddau achos mae'r agweddau diwylliannol, hanesyddol ac economaidd i gyd yn ddiddorol iawn.

## Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Credwch neu beidio, nid oes dim nad wyf yn ei hoffi am fy ngwaith. Rwy'n 64 oed - ond nid yw hynny'n golygu fy mod i o reidrydd yn hen - ac rwy'n dal i edrych ymlaen at ddod i'r swyddfa bob dydd.

## Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Mae dwy elfen yn perthyn i fy mhroffesiwn i - celfyddydau a diwylliant, ac economeg. Mae'n rhaid i chi gael y ddwy elfen hynny os ydych chi am lwyddo.

## Diwrnod ym mywyd

9:00 am - 10:00 am

Gwrando ar unrhyw negeseuon ar y peiriant ateb a darllen negeseuon ebost; edrych ar fy amserlen ar gyfer y diwrnod a gwneud newidiadau iddi; ymateb i negeseuon gan gleientiaid a chydweithwyr; ateb cwestiynau gan y staff.

10:00 am - 1:00 pm

Teithio i safle (casgliad celf corfforaeth fawr); archwilio darn newydd o waith celf; tynnu ffotograffau ohono a'i ffilmio; cofnodi gwybodaeth am y paentiad ar fy nghyfrifiadur.

1:00 pm - 2:00 pm

Cinio.

2:00 pm - 2:30 pm

Paratoi'r ffilm fideo a'r ffilm ffotograffig i'w datblygu.

2:30 pm - 4:00 pm

Trawsgrifio fy nodiadau ar y cyfrifiadur; mynd ati i ysgrifennu disgrifiad manwl o'r paentiad a welais y bore yma.

4:00 pm - 6:00 pm

Dechrau ymchwilio i'r paentiad: chwilio am wybodaeth am yr arlunydd, y paentiad, ei werth ar y farchnad a'i berchnogion blaenorol. Bydd yr holl wybodaeth hon a fy archwiliad o'r gwrthrych yn fy ngalluogi i bennu ei werth.